



Un Llais Cymru
One Voice Wales

Cynghorau Cymuned a Thref
Canllaw Digidol
Caffael

Awst 2024

Cynnwys

Cyflwyniad: Caffael Offer TG ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref	3
Offer Perthnasol i Gyngorau Cymuned a Thref	4
Cyfrifiaduron (Cyfrifiaduron Personol, Gliniaduron, Penbyrddau).....	4
Tabledi.....	4
Perifferolion Cyfrifiadurol.....	5
Ffonau Symudol	5
Clustffonau ar gyfer Gweithio Gartref	6
Ffonau Sain ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod.....	6
Meicroffonau ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod	7
Camerâu Fideo-gynadledda ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod.....	7
Sgriniau Mawr ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod	7
Argraffwyr, Sganwyr, a Chopiwyr	8
Cynllunio Caffael.....	9
Hanes Fersiwn	9

Cyflwyniad: Caffael Offer TG ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref

Gall caffael offer TG fod yn fuddsoddiad sylweddol i unrhyw sefydliad, yn enwedig i sefydliadau bach lle gall adnoddau fod yn brin. Felly, mae'n hanfodol sicrhau eich bod yn cael y gwerth gorau o'ch caffaeliad TG. Dyma rai ystyriaethau allweddol:

Dilynwch Reolau Ariannol eich Cyngor: Rhaid caffael yn unol â Rheoliadau Ariannol eich Cyngor ac unrhyw reolau caffael eraill.

Optimeiddio'r Fanyleb Offer: Mae'n bwysig diffinio'ch anghenion yn glir cyn prynu. Mae hyn yn cynnwys deall pwrpas yr offer a sut mae'n cyd-fynd â gofynion eich sefydliad. Mae'n ddefnyddiol deall elfennau allweddol y fanyleb sy'n llywio pris a pherfformiad. Gall gor-fanylu arwain at gostau diangen, tra gall tan-fanylu arwain at offer nad yw'n bodloni'ch anghenion.

Sicrhau Hygyrchedd a Defnyddioldeb: Dylai'r offer fod yn hawdd ei ddefnyddio ac yn hygyrch i bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai ag anableddau. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau megis gosodiad a dyluniad y cyfarpar, pa mor hawdd yw ei ddefnyddio, a pha mor gydnaws ydyw â thechnolegau cynorthwyol sy'n cefnogi mynediad i ddyfeisiau - megis darllenwyr sgrin ar gyfer y rhai â nam ar eu golwg.

Cyfanswm Cost Perchnogaeth: Mae cyfanswm cost perchnogaeth (TCO) yn cynnwys pris prynu'r offer, yn ogystal â chostau parhaus megis cynnal a chadw, atgyweirio a chostau gweithredu. Mae'n bwysig ystyried y TCO wrth wneud penderfyniad caffael, oherwydd efallai nad yr opsiwn rhataf ymlaen llaw yw'r un mwyaf cost-efeithiol yn y tymor hir bob amser.

Prydlesu yn erbyn Prynu: Gall prydlesu offer fod yn opsiwn cost-efeithiol i sefydliadau bach, gan ei fod yn caniatáu uwchraddio rheolaidd ac yn osgoi cost prynu ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried telerau'r brydles yn ofalus a'i gymharu â chost prynu'r offer yn llwyr.

Dewis Cyflenwr : Mae dewis y gwerthwr cywir yn hanfodol. Ystyriwch ffactorau megis enw da'r gwerthwr, ansawdd eu gwasanaeth cwsmeriaid, a'u gallu i ddarparu cymorth a chynnal a chadw parhaus.

Cynaliadwyedd: Ystyriwch effaith amgylcheddol yr offer, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni a pholisïau'r gwneuthurwr ar ailgylchu a gwaredu.

Diogelwch: Sicrhewch fod gan yr offer nodweddion diogelwch priodol i ddiogelu data a gwybodaeth eich sefydliad.

Offer Perthnasol i Gynghorau Cymuned a Thref

Cyfrifiaduron (Cyfrifiaduron Personol, Gliniaduron, Penbyrddau)

Disgrifiad a Phwrpas: Defnyddir cyfrifiaduron gan gynghorau ar gyfer amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys creu dogfennau, e-bost, pori rhyngrwyd, a chynadledda fideo.

Manyleb: Elfennau allweddol manyleb cyfrifiadur yw

Y “ffurf” - yn ogystal â gliniadur neu ben desg mae yna ystod o opsiynau sy'n “hybrid” rhwng cyfrifiadur a llechen. Ystyriwch pa mor aml y bydd y ddyfais yn cael ei chludo o'r cartref i'r swyddfa neu'n ehangach ar gyfer defnyddiwr sy'n teithio'n rheolaidd.

Y prosesydd - Mae hon yn elfen allweddol yng nghyflymder y cyfrifiadur. Fodd bynnag, ni fydd angen prosesydd gradd uchel ar waith nodweddiadol staff a chynghorwyr cyngorau cymuned a thref i berfformio'n dda.

Y cof - mae Windows 11 fel arfer yn gofyn am o leiaf 8GB o Gof Mynediad Ar Hap (RAM) ond byddai 16GB yn helpu i sicrhau y bydd gan y cyfrifiadur oes dda o ddefnydd.

Y storfa – Os oes gan y cyngor bolisi o ddefnyddio storfa cwmwl yna ni ddylai fod angen buddsoddi mewn gliniaduron neu gyfrifiaduron pen desg gyda storfa fawr arnynt. Byddai 256G yn ddigon i ddal y system weithredu a chymwysiadau allweddol.

Ansawdd yr adeiladu. Mae gliniaduron sydd wedi'u cynllunio ar gyfer teithio'n aml yn aml yn defnyddio deunyddiau gradd uwch fel alwminiwm yn hytrach na phlastig. Bydd hyn yn cynyddu'r pris ond gallai fod yn fuddsoddiad da i sicrhau gwydnwch. Bydd gan liniaduron premiwm sgriniau a bysellfyrdau o ansawdd uwch ond dylid ystyried a fydd gliniadur yn cael ei ddefnyddio'n bennaf wedi'i gysylltu â perifferolion allanol (fel y disgrifir isod).

Oes:

Dylai gliniadur sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda bara 3-5 mlynedd.

Mae cyfrifiadur desg fel arfer yn llai tebygol o ddioddef traul corfforol ac yn fwy syml i'w uwchraddio. Dylai bara 5-7 mlynedd

Costau Parhaus: Trwyddedau meddalwedd, cynnal a chadw, costau atgyweirio posibl, a chostau trydan.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a chyflenwyr TG arbenigol.

Tabledi

Disgrifiad a Phwrpas: Mae “tabled” yn ddyfais gyfrifiadurol fflat heb unrhyw fysellfwrdd ar wahân. Yn nodweddiadol mae ganddynt faint sgrin rhwng 7 a 12

modfedd. Y mwyaf poblogaidd ar y farchnad yw cyfres Ipad Apple ond mae amrywiaeth fawr o ddyfeisiau am brisiau gwahanol ar gael. Gall cynghorau ddefnyddio tabledi ar gyfer yr holl dasgau y gellir eu cyflawni ar gyfrifiadur desg neu liniadur ond, o ystyried y sgrin lai a diffyg bysellfwrdd allanol, maent yn fwyaf addas ar gyfer defnydd cyfryngau, pori rhyngwyd a swyddogaethau cyfathrebu megis fideo gynadledda.

Manyleb: Elfennau allweddol manyleb tabled yw

Y System Weithredu / Gwneuthurwr - Fel y nodwyd uchod mae Apple Inc yn dominyddu'r farchnad tabledi gyda'u cyfres iPad. Mae'r dyfeisiau hyn yn rhedeg system weithredu IOS Apple. Fodd bynnag, maent fel arfer yn costio mwy am fanyleb dechnegol sydd yn union yr un fath â thabledi cystadleuol gan weithgynhyrchwyr eraill sy'n rhedeg system weithredu Android. Un ystyriaeth allweddol fydd pa mor gyfarwydd yw'r staff â'r systemau hyn er mwyn osgoi unrhyw waith wrth ddysgu eu defnyddio.

Y cof - Mae datganiadau cyfredol systemau gweithredu Android ac IOS yn elwa o redeg ar ddyfais sydd ag o leiaf 8GB o Gof Mynediad Ar Hap (RAM).

Oes:

Dylai tabled wedi'i gynnal a'i gadw'n dda bara 2-3 blynedd.

Costau Parhaus: costau atgyweirio posibl a chostau trydan.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a chyflenwyr TG arbenigol.

Perifferolion Cyfrifiadurol

Disgrifiad a Phwrrpas: Mae perifferolion cyfrifiadurol yn cynnwys dyfeisiau fel bysellfyrddau, llygod, a monitorau a ddefnyddir i fewnbynnu neu allbynnu gwybodaeth o gyfrifiadur.

Manyleb: Chwiliwch am berifferolion sy'n gyfforddus i'w defnyddio, yn wydn ac yn gydnaws â'ch systemau presennol. Gall perifferolion di-wifr gynnig mwy o hyblygrwydd.

Oes: Fel arfer gall perifferolion bara hyd at 10 mlynedd, yn dibynnu ar ddefnydd a chynnal a chadw.

Costau Parhaus: Costau atgyweirio neu adnewyddu posibl.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a chyflenwyr TG arbenigol.

Ffonau Symudol

Disgrifiad a Phwrpas: Mae ffonau symudol yn nodwedd hollbresennol o fywyd modern. Efallai yr hoffai cyngorau ystyried cefnogi staff i ddefnyddio eu ffôn symudol personol ar gyfer busnes y cyngor er bod angen ystyried materion diogelwch data a phreifatrwydd. Os yw'n well gan gyngorau gael ffôn symudol ar gyfer eu staff yna mae'r rhain yn ystyriaethau allweddol

Manyleb: Fel arfer ni fydd angen y ffôn diweddaraf un ar staff y Cyngor. Bydd ffôn canol y ffordd a fydd yn costio tua £300 yn addas ar gyfer galwadau, negeseuon, ffotograffiaeth sylfaenol a mynediad e-bost

Oes: Fel arfer gall ffonau symudol bara 3 blynedd, yn dibynnu ar ddefnydd a chynnal a chadw. Gwiriwch y bydd y gwneuthurwr yn darparu diweddariadau meddalwedd ar gyfer oes arfaethedig y ffôn

Costau Parhaus: Data a chynllun galwadau gyda Telco symudol.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a siopau ffôn.

Clustffonau ar gyfer Gweithio Gartref

Disgrifiad a Phwrpas: Defnyddir clustffonau ar gyfer cyfathrebu sain, yn enwedig yn ystod galwadau fideo. Gallant helpu i leihau sŵn cefndir a gwella ansawdd sain.

Manyleb: Ystyriwch glustffon gyda chanslo sŵn, padiau clust cyfforddus, a meicroffon o ansawdd da. Mae clustffonau di-wifr yn caniatáu i chi symud o gwmpas.

Oes: Gall clustffonau a gynhelir yn dda bara hyd at 5 mlynedd.

Costau Parhaus: Costau atgyweirio neu adnewyddu posibl.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a chyflenwyr TG arbenigol.

Ffonau Sain ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod

Disgrifiad a Phwrpas: Dyfeisiau yw ffonau sain sy'n galluogi cyfathrebu heb ddwylo yn ystod cyfarfodydd. Mae ganddyn nhw feicroffonau a seinyddion sy'n caniatáu i nifer o bobl gymryd rhan mewn sgwrs.

Manyleb: Chwiliwch am ffôn sain gyda chanslo sŵn, lleihau adlais, a rhychwant ddigonol i orchuddio'r ystafell gyfarfod. Dylai fod yn gydnaws â'ch systemau cyfathrebu presennol.

Oes: Yn nodweddiadol, gall ffôn sain o ansawdd da bara hyd at 5-7 mlynedd.

Costau Parhaus: Costau cynnal a chadw a chostau atgyweirio posibl.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a chyflenwyr TG arbenigol.

[Meicroffonau ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod](#)

Disgrifiad a Phwrpas: Defnyddir meicroffonau i chwyddo llais siaradwr yn ystod cyfarfodydd.

Manyleb: Ystyriwch feicroffon gydag ymateb amledd eang a sensitifrwydd uchel. Dylai fod yn hawdd ei osod a'i ddefnyddio.

Oes: Gall meicroffon a gynhelir yn dda bara hyd at 5-10 mlynedd.

Costau Parhaus: Cynnal a chadw, costau atgyweirio posibl, ac ailosod rhannau fel batris neu geblau.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a chyflenwyr TG arbenigol.

[Camerâu Fideo-gynadledda ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod](#)

Disgrifiad a Phwrpas: Defnyddir y camerâu hyn ar gyfer fideo-gynadledda, gan ganiatáu cyfathrebu gweledol rhwng cyfranogwyr mewn gwahanol leoliadau.

Manyleb: Chwiliwch am gamera gyda chydrianiad uchel (1080p neu uwch), ffocws awtomatig, a maes golygfa eang. Dylai fod yn gydnaws â'ch meddalwedd fideo-gynadledda.

Oes: Gall camera o ansawdd da bara hyd at 5-7 mlynedd.

Costau Parhaus: Costau cynnal a chadw a chostau atgyweirio posibl.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a chyflenwyr TG arbenigol.

[Sgriniau Mawr ar gyfer Ystafelloedd Cyfarfod](#)

Disgrifiad a Phwrpas: Defnyddir sgriniau mawr i arddangos gwybodaeth yn ystod cyfarfodydd, megis cyflwyniadau, fideos, neu alwadau fideo.

Manyleb: Ystyriwch sgrîn gyda chydrianiad uchel (4K neu uwch) a maint mawr (50 modfedd neu fwy) i sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn gallu gweld. Dylai fod ganddi opsiynau mewnbwn lluosog (HDMI, VGA, ac ati).

Oes: Gall sgrin a gynhelir yn dda bara hyd at 5-10 mlynedd.

Costau Parhaus: Cynnal a chadw, costau atgyweirio posibl, a chostau trydan.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a chyflenwyr TG arbenigol.

Argraffwyr, Sganwyr, a Chopiwyr

Disgrifiad a Phwrrpas: Defnyddir y dyfeisiau hyn i argraffu, sganio a chopio dogfennau. Gallant fod yn ddyfeisiau ar wahân neu wedi'u cyfuno'n ddyfais aml-swyddogaeth.

Manyleb: Chwiliwch am ddyfeisiau sy'n cynnig allbwn o ansawdd uchel, cyflymder argraffu / sganio cyflym, a chost isel fesul tudalen. Ystyriwch faint y ddyfais ac a ydi hi'n gydnaws â'ch systemau presennol. Mae yna lawer o opsiynau i brydlesu dyfeisiau argraffu neu i dalu e.e. fesul tudalen a argraffwyd

Oes: Yn nodweddiadol gall y dyfeisiau hyn bara 5-7 mlynedd, yn dibynnu ar ddefnydd a chynnal a chadw.

Costau Parhaus: Cetris inc neu arlliw, papur, cynnal a chadw, a chostau atgyweirio posibl.

Cyflenwyr Posibl: Siopau electroneg lleol, marchnadoedd ar-lein, a chyflenwyr TG arbenigol.


Cynllunio Caffael

Wrth gynllunio caffael, ystyriwch y camau canlynol:

1. **Nodi Anghenion:** Penderfynu pa offer sydd ei angen a'r manylebau gofynnol fel y rhestrir uchod
2. **Ymchwilio i Gyflenwyr:** Chwiliwch am gyflenwyr posibl sy'n lleol i'ch cyngor neu ledled Cymru a chymharwch eu cynigion.
3. **Gwerthuso Costau:** Ystyriwch gost yr offer ymlaen llaw ac unrhyw gostau parhaus.
4. **Cynllun ar gyfer gwaredu offer presennol.** Mae angen ystyried unrhyw offer sy'n cael ei dynnu allan o ddefnydd ar gyfer masnachu, gwerthu neu ailgylchu priodol
5. **Rheoli Asedau:** Cadwch olwg ar yr holl offer, gan gynnwys manylion prynu, gwarant, cynnal a chadw a gwaredu. Sicrhewch fod y dyfeisiau'n cael eu trin yn briodol yn unol â'ch rheoliadau ariannol a'ch dull cyfrifyddu

Hanes Fersiwn

	Dyddiad	Cyhoeddwr	Rheswm	Dyddiad Adolygu
F1	14/11/24	Justin Horrell	Fersiwn Gychwynnol	14/11/25



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government